PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU DYDD IAU, 1 HYDREF 2026

Presenoldeb:

Y CYNGHORWYR:

Elwyn Edwards, Beca Roberts, Berwyn Parry Jones, Delyth Lloyd Griffiths, Edgar Wyn Owen, Jina Gwyrfai, Elfed Williams, Arwyn Herald Roberts, Wendy Cleaver, Elfed Powell Roberts, Gruffydd Williams, Peter Thomas, Annwen Hughes a Stephen Churchman.

Swyddogion yn bresennol:
Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu) ac Annes Sion (Arweinydd Tim Democratiaeth).

Yn bresennol ar gyfer Eitem 5:
Y Cynghorydd Craig ab Iago (Aelod Cabinet Amgylchedd), Bethan Richardson (Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd)

Yn bresennol ar gyfer Eitem 6:
Y Cynghorydd June Jones (Aelod Cabinet Priffyrdd, Peirianneg ac YGC), Steffan Jones (Pennaeth Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC) a Gareth Roberts (Peiriannydd Ardal Dwyfor)

Yn bresennol ar gyfer Eitem 7:
Y Cynghorydd Craig ab Iago (Aelod Cabinet Amgylchedd), Gerwyn Jones (Pennaeth Cynorthwyol yr Adran Amgylchedd) a Ceri Hughes Thomas (Rheolwr Parcio a Gwaith Stryd).

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd Dafydd Davies.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 11 Mehefin 2026 fel rhai cywir.

5. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNLLUN ARGYFWNG HINSAWDD A NATUR 2025/26

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd gan nodi ei fod yn adrodd ar waith a wnaethpwyd yn 2025/26 ac o dan y cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur gwreiddiol, sydd bellach wedi ei ddiweddaru a'i fabwysiadu gan y Cabinet yn haf 2026.

Mynegwyd fod y Cyngor yn adrodd ar allyriadau Carbon i Lywodraeth Cymru ers pedair blynedd bellach. Esboniwyd fod hyn yn rhoi sail gadarn i weld os yw'r cynnydd yn mynd i'r cyfeiriad cywir. Nodwyd yn ogystal fod ffigyrau yn cael ei gyflwyno gan gynnwys mesuriadau caffael a hebddynt, gan nad yw'r fethodoleg yn hollol gywir gyda chaffael am ei fod yn seiliedig ar wariant. Eglurwyd o edrych ar y ddau ddarlun ei fod yn dangos eu bod ar y trywydd cywir. Manylwyd fod allyriadau carbon yn gostwng a bod lefelau amsugno carbon yn aros yn gyfartal oherwydd eu bod wedi defnyddio ystadegau 2024/25, ond fod y bwlch yn cau. Ychwanegwyd fod esboniadau dros hyn yn yr adroddiad, ond eu bod yn cynnwys buddsoddiad gwaith ar leihau allyriadau o ddefnydd ynni adeiladau, gosod pwyntiau gwefru fflyd a bod y strategaeth wastraff bellach yn weithredol. Pwysleisiwyd fod y darlun yn eang a chymhleth ond eu bod ar y trywydd cywir.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Diolchwyd am yr adroddiad a thynnwyd sylw at gyfrifo allyriadau carbon o'r drefn caffael, gan nodi os yw'n cael ei fesur ar wariant yn unig sut mae modd cyrraedd sero net. Gyda chynnydd mewn costau ni fydd modd ei gyrraedd gan ei fod yn darged sydd yn symud yn gyson. Ychwanegwyd gyda chynnydd mewn costau tanwydd mae'r allyriadau am godi drwy'r mesurydd hwn. Nodwyd ei fod yn wallgof cyfri ôl troed carbon drwy gaffael gan nad oes modd i neb gyrraedd sero net. Pwysleisiodd ei fod yn ymwybodol mae mesurydd Llywodraeth Cymru yw hwn ond nad yw'n adlewyrchu'r sefyllfa a bod gwir angen ei gwestiynu. Ymatebwyd gan nodi eu bod yn cytuno yn llwyr gyda'r sylwadau ond fod y Cyngor wedi gwneud un cam positif wrth edrych ar brosesau caffael. Esboniwyd fod llawer o amser wedi ei dreulio i gefnogi cyflenwyr ac i'w cynorthwyo i ddatblygu cynlluniau rheoli carbon eu hunain. Drwy wneud hyn, eglurwyd ei fod wedi arwain at leihau lefelau carbon o fewn y cwmnïau a'u galluogi i roi data carbon cywir sydd yn cael ei fwydo yn ôl i Lywodraeth Cymru. Ymhelaethwyd drwy nodi fod canran uwch o'r data yn gywir o ganlyniad i'r gefnogaeth sydd wedi'i gynnig, ond os am weld y math yma o brosiect ar draws Cymru mae am fod angen llawer mwy o adnoddau. Ychwanegwyd fod yr Aelod Cabinet wedi holi'r Llywodraeth newydd am drafodaeth bellach am y mesur hwn.

Tynnwyd sylw at y siart Amsugno Carbon o asedau tir y Cyngor gan holi pam fod gostyngiad mawr wedi bod yn ddwy flynedd gyntaf y cynllun ac yna cynnydd graddol i'w gweld yn dilyn hynny, gyda niferoedd 2025/26 yn uwch na beth oeddent yn 2021/22. Ymatebwyd drwy nodi fod y fethodoleg a ddefnyddiwyd yn y ddwy flynedd gyntaf yn wahanol i beth a ddefnyddiwyd yn dair blynedd ddilynol. Mynegwyd fod angen y cyd-destun i gyd-fynd a'r siart er mwyn cael y darlun llawn. Ategwyd nad oes llawer o newid wedi bod mewn defnydd tir ac felly fod data 2024/25 wedi ei ddefnyddio ar gyfer eleni a bod trafodaethau yn mynd rhagddi rhwng Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddod o hyd i'r dull cywir o fesur lefelau amsugno carbon.

Mynegwyd fod y blwch i sero net yn parhau i fod yn uchel ers y gostyngiad cychwynnol yn ôl yn 2020/21.Ymatebwyd drwy nodi fod y bwlch wedi gostwng ers y flwyddyn waelodlin yn 2019, ond ei fod yn dod yn ôl i'r ffaith fod lefel amsugno carbon o asedau tir yn llawer yn is yn 2020/21 o'i gymharu ar flwyddyn ddilynol. Mynegwyd y bydd gwelliant eleni, ond y gellir cadarnhau hyn pan fydd trefniadau mesur newydd ar gyfer mesur y lefel amsugno.

Diolchwyd i'r staff sydd yn gweithio mor galed yn y maes hwn, a bod y gwaith sydd yn cael ei wneud yn wyrthiol gyda chyn lleied o gyllideb. Pwysleisiwyd fod cannoedd ar filoedd o arian yn cael ei arbed i'r Cyngor drwy'r cynlluniau yma sydd yn cynorthwyo gydag arbedion angenrheidiol y Cyngor yn flynyddol. Amlygwyd fod Cynllun ECO4 yn dod i ben eleni, sy'n gynllun sy'n cyd-weithio gyda'r Llywodraeth i gynorthwyo trigolion

Gwynedd i leihau costau ynni. Holwyd beth fydd yn digwydd nesaf, ac os oes lle i'r Pwyllgor Craffu gefnogi'r Aelod Cabinet i holi'r Llywodraeth am y camau nesaf o ran cynllun ECO4. Ymatebwyd drwy nodi fod trafodaeth am fod gyda'r Llywodraeth am gaffael a bydd modd codi cynllun ECO 4 fel rhan o'r drafodaeth honno.

Holwyd pa brosiectau a gwblhawyd yn 2025/26 a gafodd effaith mesuradwy ar leihau'r bwlch sero net, a pa rai na lwyddwyd i leihau allyriadau a faint o gynnydd sydd o ganlyniadau i grantiau yn hytrach na newidiadau cynaliadwy i leihau gwariant o'r gyllideb graidd. Ymatebwyd drwy nodi fod nifer o gynlluniau adeiladau ac ynni wedi derbyn llawer o grantiau ac y bydd rhai yn arwain at arbedion ariannol oherwydd y gostyngiad mewn costau ynni. O ran arbed arian mynegwyd fod rhai cynlluniau yn cyrraedd niwtraliaeth ble nad oes cynnydd na gostyngiad.

Tynnwyd sylw fod y blwch i sero net heb gaffael yn parhau i fod yn 16,937,946 kgCO2e ar y gyfradd, a gofynnwyd faint o flynyddoedd y bydd yn ei gymryd i gyrraedd sero net a pam fod angen glynu wrth y targed 2030 sydd yn parhau i edrych yn afrealistig. Ychwanegwyd fod y lefel amsugno carbon wedi aros yn llonydd, a gofynnwyd felly a yw'n dangos fod strategaeth ecolegol yn fethiant hyd yma neu oes esboniad ehangach. Mynegwyd sut fod allyriadau carbon Cyngor Gwynedd yn cyfrannu o gwbl at newid hinsawdd fyd-eang pan maent mor fychan, a hynny pan fo nifer o wledydd bellach yn cefnu ar Gytundeb Paris o ganlyniad i dystiolaeth wyddonol yn amlygu effaith negyddol ar yr economi. Ymatebwyd drwy nodi fod y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur ddiweddaraf a fabwysiadwyd gan y Cabinet ym mis Gorffennaf yn rhoi mwy o wybodaeth o ran targed 2030 gan bwysleisio ei fod yn heriol. Mynegwyd fod hyn wedi ei atgyfnerthu gan Lywodraeth Cymru sydd wedi sôn ei fod yn darged i'w gyrraedd yn 2040. Pwysleisiwyd fod hon yn drafodaeth fyw ar hyn o bryd rhwng nifer o sefydliadau.

Gofynnwyd beth yw'r gwir gost a amcangyfrifir i gau'r bwlch erbyn 2030 ac o ble fydd yr arian yn dod os yw grantiau yn dod i ben, a fydd y Cyngor yn barod i newid y targed neu pa wasanaethau fydd yn dioddef oherwydd y ffocws a gwariant ar y cynllun hwn. Ymhelaethwyd fod arian grant yn dod o boced y trethdalwr ac felly fod angen bod yn ofalus ble mae'n cael ei wario. Ymatebwyd drwy nodi nad oes dim am ddim yn y gymdeithas yr ydym yn byw ynddo, ond fod angen i'r Cyngor wneud y mwyaf o'r grantiau sydd yn cael ei gynnig. Mynegwyd fod gan y Cyngor gynllun Carbon yn ôl yn 2005 ac felly ei fod yn rhan o ddiwylliant y Cyngor i barhau gyda'r gwaith gan ei fod yn arbed arian i'r Cyngor a'r trethdalwr ac yn sicrhau fod gwasanaethau yn cael ei darparu mor effeithiol â phosib.

PENDERFYNWYD

1. **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth.**
2. **Croesawyd y bwriad i drafod gyda Gweinidogion Llywodraeth Cymru o ran methodoleg cyfrifo allyriadau carbon yn y maes Caffael, ynghyd a dilyniant i'r cynllun EC04 sydd yn dirwyn i ben.**

6. CYNNAL PRIFFYRDD - GOSOD MARCIAU FFORDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adran ar hyn o bryd yn edrych ar gamau i wella'r gwasanaeth. Nodwyd y trefniadau presennol sef fod contractwr allanol yn gwneud y gwaith o farcio ffyrdd, oni bai am un cyfarpar marciau ffyrdd a llaw yn ne'r Sir. Pwysleisiwyd mai dim ond dau gontractwr sydd yn gweithio ar draws y Gogledd, ac felly fod yr amser aros i wneud y gwaith yn gallu bod yn hir. Tynnwyd sylw at y camau i wella'r gwasanaeth sydd i'w weld yn yr adroddiad. Nodwyd mai cam dau yw buddsoddi mewn cyfarpar marciau ffyrdd a llaw ychwanegol, ynghyd a hyfforddi staff i'w ddefnyddio, ar gyfer ei weithredu yng Ngogledd y sir.

Eglurwyd fod cam 3 ar gyfer datblygu cynllun busnes i fuddsoddi mewn cerbyd pwrpasol gosod marciau ffordd, gan gyflwyno bid buddsoddi i arbed. Ychwanegwyd y buasai hyn yn sicrhau fod gwaith yn cael ei gwneud yn gynt ac y buasai cyfle i gynnig gwaith i siroedd cyfagos a chodi incwm. Ychwanegwyd y buasai ei weithredu yn fewnol yn ei gwneud yn llawer haws i reoli'r sefyllfa.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Nodwyd fod y ffaith mai dim ond dau gontractwr sydd ar gael i wneud y gwaith, yn amlygu'r angen i gefnogi'r achos yma. Er hynny, mynegwyd y buasai yn ddefnyddiol gweld yr achos ariannol dros hynny yn ogystal, efallai wrth gyflwyno i'r Cabinet i weld y darlun dros y 5-10 mlynedd o ran cost staffio, cynnal a chadw ynghyd a'r incwm ychwanegol. Ymatebwyd drwy nodi fod cael y ffigyrau yn hanfodol i gyflwyno'r bid, ond heb gyrraedd y pwynt hwn eto. Mynegwyd o ran costau y buasai cost o oddeutu £200k o ran buddsoddiad i brynu'r peiriant. Eglurwyd fod sgyrsiau cychwynnol wedi cychwyn gyda'r Asiantaeth Cefnffyrdd, sydd wedi nodi cefnogaeth a gwaith os yn mynd lawr y trywydd buddsoddi. Ymhelaethwyd bod trafodaeth gychwynnol wedi bod â siroedd cyfagos. Mynegwyd fod yr elfen ariannol yn allweddol ond fod enw da'r Cyngor yn ogystal, hynny yw ymateb yn amserol a chyflym. Nodwyd fod buddsoddiad wedi ei wneud ar gyfer cam 2, a'i fod yn gam i'r cyfeiriad cywir.

Holwyd sut mae modd diffinio llwyddiant y gwasanaeth, oherwydd mae marciau ffyrdd yn bwysig o ran traffig a diogelwch ond mae'n angenrheidiol ar gyfer cerddwyr a beicwyr yn ogystal. Gofynnwyd sut mae'r drefn yn ystyried gwahanol ddefnyddwyr wrth flaenoriaethu marciau ffordd, a sut mae mesurau perfformiad yn ein galluogi i weld faint o waith, ynghyd a ble mae gwaith yn digwydd, a pha anghenion sydd yn cael eu diwallu. Ymatebwyd drwy nodi fod blaenoriaethu yn dod lawr i asesiad risg a bod diogelwch ffyrdd yn rhan o waith yr arolygwr ffordd, gan ystyried y ffordd i gyd gan gynnwys y marciau ffordd. Eglurwyd fod mesurau yn dod i mewn i'r drefn herio perfformiad ac y bydd enghreifftiau yn cael ei ystyried wrth adrodd.

Tynnwyd sylw at farciau ffordd yn dilyn ail wynebu, esboniwyd fod weithiau cyfnod o 6 wythnos neu fwy cyn maent yn cael ei ailosod a bod hyn yn destun pryder oherwydd bod damweiniau yn gallu digwydd a problemau diogelwch o flaen ysgolion. Holwyd os oes cyfnod ble nad oes modd marcio yn dilyn ail wynebu. Ymatebwyd drwy nodi eu bod yn ymwybodol o risgiau ble mae oedi ac yn benodol i rai nad ydynt yn adnabod yr ardal. Eglurwyd fod ail linellu yn rhan o gytundeb contractwyr wrth wneud gwaith ail wynebu a'i fod yn dueddol o ddigwydd yn eithaf agos i ddiwedd y cyfnod. Er hyn, pwysleisiwyd mai dim ond dau gontractwr sydd gyda'r offer i beintio marciau ffordd ar gyfer mannau mawr - er enghraifft peintio llinellau canol ffordd. O ganlyniad mae'r Cyngor ar ofyn y contractwr, ac yn aml mae'n rhaid cael pecyn mawr o waith iddynt ddod i'r sir. O ran marcio o flaen ysgolion, eglurwyd ei fod yn sgorio yn uchel o ran blaenoriaethu a bod yr adran yn gallu defnyddio'r cyfarpar llaw i wneud y gwaith yn fewnol.

Diolchwyd am y gwaith sydd wedi ei wneud gan amlygu eu bod wedi bod yn rhagweithiol iawn yn ei ward. Cefnogwyd y camau i wella gwasanaeth a holwyd beth sydd yn cael ei ddefnyddio bellach i wneud y marciau ffordd, gan fod newid wedi bod er mwyn defnyddio deunydd mwy amgylcheddol. Gofynnwyd a yw wedi gwrthsefyll traul yn ddigonol. Ymatebwyd gan nodi fod yr adran wedi bod yn defnyddio deunydd nad yw mor gadarn o ran manyleb ac sydd ar y farchnad agored. Ategwyd fod lleoliadau wedi'i hadnabod ble mae llawer o wisgo yn digwydd er mwyn treialu deunydd cadarn iawn er mwyn cymharu bywyd y marciau.

Datganwyd cefnogaeth i'r buddsoddi ac amlygwyd fod peiriannau arloesol yn dod o Tsieina, a gofynnwyd a oes bwriad i fuddsoddi mewn peiriannau llai. Ymatebwyd drwy

nodi eu bod yn buddsoddi mewn ail gyfarpar llaw er mwyn ei leoli yng Ngogledd y sir, a bod cam tri ar gyfer cerbyd mwy.

Mynegwyd nad yw'r trefniadau presennol yn gweithio a bod angen mwy o waith gael ei wneud yn fewnol. Holwyd o ran y contractwyr allanol os yw'r Cyngor yn talu iddynt aros dros nos, ac o ran y cynllun busnes a fydd angen buddsoddi mewn mwy o staff. Ymatebwyd drwy nodi y bydd y Cynllun Busnes yn amlygu'r angen am weithlu ychwanegol gan y bydd yn anorfod. Eglurwyd nad yw'r Cyngor yn talu i gontractwyr aros dros nos sydd yn gallu bod yn heriol gan fod angen amserlennu amser teithio yn ogystal.

Wrth drafod y marciau ffordd bu i fwy nac un aelod holi os yw'r llinellau yn cael ei pheintio neu eu llosgi ac os oes angen peiriannau gwahanol i'r gwahanol liwiau. Eglurwyd fod y marciau yn cael ei gosod yn boeth a bod yr un drefn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y cyfarpar llaw yn Ne'r Sir. Eglurwyd fod y ddau liw ar yr un cerbyd ac yn gweithio yn annibynnol i'r llall.

Gofynnwyd a yw awdurdod arall yn meddwl mynd lawr yr un trywydd a buddsoddi. Ymatebwyd drwy nodi fod trafodaethau wedi bod ac nad oes bwriad gwneud hyn ond yn amlwg gall y sefyllfa newid dros amser.

Mynegwyd fod yr adran yn ffodus i gael camau i drio datrys y broblem. Ond holwyd os yw'r cais busnes yn aflwyddiannus be fuasent yn ei wneud. Ymatebwyd drwy nodi eu bod wedi buddsoddi yng ngham dau yn barod ac y buasai yn gwneud peth gwelliant, ond fod cam tri yn benodol ar gyfer y cynlluniau mawr ble mae gofyn i'r cyngor ddefnyddio contractwyr allanol. O ganlyniad os na fuasai buddsoddiad y buasai'r sefyllfa yn parhau fel ac y mae**.**

PENDERFYNWYD

1. **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth.**
2. **Datgan cefnogaeth i ddatblygu cynllun busnes ar gyfer buddsoddi i alluogi'r gwasanaeth i ymgymryd â chanran uchel o waith marcio ffyrdd yn fewnol.**
3. **Argymell i'r Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC y dylid datblygu mesurydd perfformiad o ran blaenoriaethu gosod marciau ffyrdd a diogelwch pob defnyddiwr ffordd, gan gynnwys cerddwyr a beicwyr.**

7. CAU FFYRDD MEWN ARGYFWNG

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod cau ffyrdd mewn argyfwng yn un rhan o waith yr uned Gwaith Stryd ar ffyrdd sirol. Mynegwyd eu bod yn gyfrifol yn unol â'r ddeddfwriaeth i alluogi ymgymerwyr statudol i wneud gwaith ar y ffyrdd. Ychwanegwyd fod prosesau gwahanol i'w dilyn pan mae gwaith argyfwng yn codi o'i gymharu â gwaith wedi'i gynllunio. Nodwyd pan fo argyfwng nad oes modd ymgysylltu gan nad oes modd rhagweld ymhle a pryd gall godi ar draws rhwydwaith sir mor eang. Eglurwyd mai gwaith cyd-lynu sydd gan yr uned yn y maes, ond eu bod a'r bwriad o liniaru cymaint â bo modd yr effaith ar gymunedau ond fod angen cadw mewn cof yr angen i waith brys neu argyfwng gael ei wneud gan ymgymerwyr statudol. Mynegwyd mewn oes o gyfathrebu ei bod yn hawdd cael gwybodaeth allan pan mae argyfwng yn codi sydd yn gallu bod o gymorth ond ei bod yn gallu gweithio yn eu herbyn pan fod nifer uchel o wybodaeth yn cael ei rannu neu os yw'r cyfnod amser yn fyr sydd yn gallu creu dryswch sydd yn anodd ei dynnu yn ôl.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Tynnwyd sylw at faterion penodol mewn ardal gyda chau ffyrdd gan nodi diffyg cyfathrebu rhwng y Chyngor a'r rhai sydd yn gwneud y gwaith. Eglurwyd fod llawer o achlysuron ble mae'r Cynghorydd wedi cysylltu â'r Cyngor i nodi fod y lon wedi cau gan nad oedd y Cyngor yn ymwybodol o'r gwaith, yn benodol gan Dŵr Cymru. Holwyd os oes modd cael gwell cydweithrediad gyda'r cwmnïau cau ffyrdd. Eglurwyd fod Dŵr Cymru wedi comisiynu cwmni o Sir Gaer i gau ffyrdd, ond nad oedd y gwaith wedi digwydd ac o ganlyniad fod y trigolion wedi ail agor y ffordd eu hunain o ganlyniad. Ychwanegwyd fod y lon wedi cau yn dilyn hyn ond nad oedd neb yn ymwybodol ac felly fod hynny wedi arwain at broblemau trafnidiaeth gyhoeddus.

Ymatebwyd drwy nodi eu bod yn cydymdeimlo yn llwyr ac yn deall y rhwystredigaeth a'u bod yn ymgeisio i gael perthynas iach gyda'r ymgymerwyr statudol a bod disgwyliadau iddynt rannu gwybodaeth. Er nad oedd ganddo fanylder am yr achos dan sylw, mynegwyd fod achosion yn gallu newid yn dilyn ymchwiliad a gweld hyd a lled y gwaith. Mynegwyd nad yw'r system yn berffaith ond eu bod yn awyddus i gydweithio i'w wella. Pwysleisiwyd ei fod yn hanfodol derbyn enghreifftiau, a'u bod yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda'r ymgymerwyr er mwyn gweld gwelliant. Nodwyd fod anawsterau wedi bod gan Dŵr Cymru yn dilyn penodi cwmni rheoli traffig newydd ond fod gwelliant wedi ei weld bellach. Ychwanegwyd eu bod yn dirwyo os yn cau ffordd heb rybudd.

Holwyd o ran trefniadau traffig, gofynnwyd pwy oedd yn anfon y mapiau ar gyfer dargyfeirio traffig. Mynegwyd fod y rhain yn ddefnyddiol iawn er mwyn ei rhannu a thrigolion. Tynnwyd sylw at enghraifft o ddargyfeiriad yn dilyn cau ffordd gan Dwr Cymru a aeth yn llawer pellach na be oedd trigolion yn weld yr angen gan fod nifer o gyffyrdd. Ymatebwyd drwy nodi os oes angen cau'r ffordd fod rhaid i'r dargyfeiriad fod ar ffordd ddosbarth cyffelyb neu uwch er mwyn sicrhau fod cerbydau trwm fel bysiau yn gallu teithio arnynt. Eglurwyd pan fo gwaith angen ei wneud, mae'n hanfodol er mwyn cynnal gwasanaethau a fod protocolau i'w dilyn ac o ganlyniad mae rhai gwiriadau yn gallu bod yn estynedig yn ddibynnol ar ble mae'r ffordd wedi cau. Ategwyd mai'r ymgymerwyr statudol sydd yn cyflwyno'r cynlluniau amgen, ond fod gan y Cyngor rôl i herio ac i ddefnyddio gwybodaeth leol i'w haddasu pan fo angen yn unol â'r ddeddf.

Amlygwyd enghraifft arall ble roedd Dŵr Cymru wedi cau'r ffordd oherwydd pibell yn gollwng ar allt. Derbyniwyd rhybudd fod y gwaith yn cael ei wneud ymhen 3 wythnos a olygai fod y dŵr ar y ffordd am 5 wythnos. Bu i'r Cynghorydd gysylltu â'r Cyngor a gwnaethpwyd y gwaith o fewn 24 awr. O ddefnyddio'r enghraifft hon, gofynnwyd a oes modd i swyddogion fynd i asesu'r angen am y gwaith cyn rhannu'r rhybudd gan efallai y buasai yn uwchraddio i argyfwng. Ymatebwyd drwy nodi fod statws y gwaith yn gallu newid dros amser. Eglurwyd fod gan y gwasanaeth dri swyddog ar draws y sir i arolygu gwaith ac i weld os yw'r gwaith wedi ei gwblhau i safon. Pwysleisiwyd fod nifer ceisiadau cau'r ffordd yn uchel ac yn ychwanegol i ddyletswyddau'r swyddogion hyn felly mae'r ystod gwaith yn eang iawn.

Mynegwyd dealltwriaeth fod y gyfraith yn gorfod cael ei ddilyn ond tynnwyd sylw at gau ffordd ar goridor un mynediad, a nodwyd yr angen i asesu risg ar yr effaith ar gymunedau ynghyd a chydbwyso os yw'r gwaith wir angen ei wneud. Tynnwyd sylw at achos penodol be nad oedd yn argyfwng ond yn waith brys ac roedd y dargyfeiriad yn dros 40 milltir gyda'i effaith yn fawr ar nifer o gymunedau. Nodwyd fod yr adroddiad yn nodi camau nesaf sydd yn amwys ac nad oes targedau mesuradwy i sicrhau na fydd hyn yn digwydd eto. Ymatebwyd drwy nodi nad oedd neb eisiau hyn i ddigwydd ond fod y gwasanaeth yn ceisio eu gorau ond yn gallu bod yn heriol pan mae gwaith argyfwng yn codi tu allan i oriau heb wybod beth yw hyd a lled y gwaith. Pwysleisiwyd yr angen i gadw mewn cysylltiad â'r Cyngor er mwyn cael gwybodaeth gywir o'r sianeli swyddogol, ond nodwyd fod y llinyn cyfathrebu yn gallu bod yn hir. Nodwyd fod swyddogion am

drefnu i ymweld â'r Cynghorydd er mwyn trafod y problemau yn ei hardal ac i amlygu'r gwaith sydd yn cael ei wneud i liniaru problemau.

Nodwyd fod angen protocolau gwahanol ar gyfer rhai lonydd, sydd yn cael effaith fawr ar gymunedau fel ffordd coridor un mynediad, er mwyn cael dealltwriaeth lawn o'r effaith. Holwyd os oes modd cael un person cyswllt ar gyfer argyfyngau. Nodwyd bod nifer swyddogion yn isel ond fod modd cysylltu â'r swyddfa, ac y byddant yn rhannu rhif penodol a swyddog er mwyn cysylltu yn uniongyrchol.

Amlygwyd fod un ymgymerwr statudol wedi ei amlygu yn ystod y cyfarfod yma sef Dŵr Cymru, a nodwyd efallai fod angen amlygu hyn iddynt.

Gofynnwyd a oes modd cael mwy o ddata o ran faint o gau ffyrdd sydd yn digwydd, faint ohonynt sydd yn waith argyfwng neu brys, faint sy'n cymryd mwy o amser a raglennwyd , ac ymhle mae'r gwaith o ran dyraniad. Holwyd yn ogystal os oes yna drafodaeth am y gwaith yn codi yn yr un lle gyda'r un darparwr dro ar ôl tro. Ymatebwyd drwy nodi fod modd darparu'r data yma yn dilyn y pwyllgor gan fod rhai o'r elfennau yn rhan o'r drefn Herio Perfformiad.

Nodwyd fod yr adroddiad yn cyfeirio nifer o weithiau at wella parhaus a gofynnwyd am esiamplau o hynny a sut mae'r gwasanaeth wedi newid. Ymatebwyd drwy nodi fod llawer o'r gwelliannau yn dod o ran deinameg y tîm o ran profiadau ac nad ydynt yn cael ei dogfennu. Ond elfen amlwg yw cyfathrebu a'r angen ac awydd i adael i bawb wybod yn amserol, ac i gadw mewn cysylltiad â Chynghorwyr.

Gofynnwyd pwy sy'n gyfrifol am adael i'r gwasanaethau argyfwng wybod pan fo ffordd yn cau. Ymatebwyd fod y Cyngor yn cymryd y rôl o adael i'r gwasanaethau argyfwng, Cynghorwyr a Chyngor Cymuned wybod pan fo ffordd yn cau.

PENDERFYNWYD

1. **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth.**
2. **Gofyn i'r Adran Amgylchedd rannu data gan gynnwys y nifer o achosion o gau ffyrdd o dan amgylchiadau brys neu mewn argyfwng, y dyraniad ar draws ardaloedd, a gwaith sydd yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl.**

8. BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU 2026/27

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Ymgynghorydd Craffu.

Esboniwyd fod gweithdy blynyddol y Pwyllgor wedi'i gynnal ar 19 Mai, ble ystyriwyd yr eitemau posib i'w craffu yn ystod 2026/27. Blaenoriaethwyd eitemau yn y gweithdy gan gadw pwrpas craffu yng Ngwynedd mewn cof, sef "Cyfrannu at yrru gwelliant mewn gwasanaethau i Bobl Gwynedd".

Eglurwyd yn dilyn y gweithdy, codwyd rhai materion a phenderfynwyd rhoi ystyriaeth iddynt. Penderfynwyd symud rhai eitemau ar y rhaglen waith ddrafft ac i nodi "Gwasanaeth Profedigaeth" fel eitem wrth gefn. Pwysleisiwyd fod y blaen raglen yn rhaglen fyw sydd yn cael ei adolygu yn gyson i sicrhau fod y materion cywir yn cael sylw.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Awgrymwyd y dylid derbyn adroddiad yn ôl ar y peilot defnyddio bagiau hesian i ailgylchu mewn rhai ardaloedd. Esboniwyd y bydd y diweddariad yma i'w gweld a'i godi wrth drafod adroddiad Herio Perfformiad yr Adran Amgylchedd.

Mynegwyd fod llystyfiant ochor ffordd yn broblem gyson o ran lonydd gwledig. Nodwyd ei fod yn fater i'w drafod wrth graffu perfformiad ac o bosib i gadw mewn cof ar gyfer ei graffu yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD

Mabwysiadu'r rhaglen waith ar gyfer 2026/27.

9. CYFARFODYDD HERIO PERFFORMIAD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Ymgynghorydd Craffu.

Mynegwyd yn dilyn trafodaeth yn y Fforwm Craffu a galwad gan aelodau'r pwyllgor craffu mae bwriad i dreialu gwadd dau gynrychiolydd o bob pwyllgor craffu i fynychu cyfarfodydd herio perfformiad mewnol un adran. Eglurwyd fod y Fforwm Craffu wedi argymell i gynrychiolydd o'r pwyllgor hwn fynychu cyfarfod herio perfformiad yr Adran Amgylchedd. Gofynnwyd i'r rhai sydd yn cael ei henwebu i fynychu, gadw mewn cof fod ffurflen i'w llenwi yn dilyn y cyfarfod er mwyn gallu adrodd yn ôl i'r pwyllgor.

Cynigwyd ac eiliwyd, y Cynghorydd Stephen Churchman ac Arwyn Herald Roberts i gynrychioli'r Pwyllgor, gyda Chynghorydd Beca Roberts wrth gefn pe bai angen yn codi.

PENDERFYNWYD
Enwebu'r aelodau canlynol i gynrychioli'r pwyllgor yng nghyfarfodydd herio perfformiad yr Adran Amgylchedd:

- **Y Cynghorwyr Stephen Churchman ac Arwyn Herald Roberts (gyda'r Cynghorydd Beca Roberts wrth gefn)**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30am a daeth i ben am 12:55pm

CADEIRYDD